Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADRODDIAD

Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos oddi wrth ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig

Ein hymateb i adroddiad ac argymhellion Estyn ar Baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 Rhagfyr 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 8 Rhagfyr 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaethau-achos-chameos-oddi-wrth-ysgolion-uwchradd** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Manylion yr adroddiad

Ymateb Llywodraeth Cymru

Manylion cyhoeddi

Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i lythyr cylch gwaith i Estyn ar gyfer 2019-2020 oddi wrth y Gweinidog Addysg. Mae'n canolbwyntio ar sut mae ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig a gynhelir yn paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar dystiolaeth o ymweliadau â sampl lled gynrychioliadol o nifer gyfartal yn fras o ysgolion arloesi, ysgolion gwella ansawdd neu ysgolion braenaru ac ysgolion partner (nad ydynt yn ysgolion arloesi).

Yr adroddiad hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres o adroddiadau gan Estyn yn ystod y cyfnod hwn o newid ym myd addysg. Mae'n dilyn Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd (2018) a edrychodd ar sut roedd ysgolion cynradd yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae adroddiadau blaenorol yn cynnwys: Gwella addysgu (2018), Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (2018), Datblygu arweinyddiaeth – astudiaethau achos o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion (2020) a Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig (2020).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaethau-achos-chameos-oddi-wrth-ysgolion-uwchradd** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cyd-destun

Mae'n bwysig cydnabod y cyd-destun ehangach y mae ysgolion yn gweithredu ynddo. COVID-19 yw'r argyfwng mwyaf erioed i wynebu ysgolion Cymru. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn cyn y pandemig, ac rydym yn cydnabod bod yr ymateb i COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ysgolion.

Mae ***Cwricwlwm i Gymru – y daith i 2022*** yn nodi'r disgwyliadau ar ysgolion yn ystod y cyfnod rhwng nawr a chyflwyno'r cwricwlwm – rydym am sicrhau bod y disgwyliadau hyn yn realistig yng ngoleuni'r pandemig, ac y byddant yn darparu hyblygrwydd i ysgolion yn eu cyd-destunau penodol. Rydym yn cydnabod y bydd ysgolion wedi cyrraedd gwahanol fannau, ac y bydd cyflymder a ffocws y gweithgarwch yn amrywio.

Canfyddiadau'r adroddiad ac adnoddau i ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad Estyn ar y paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd mewn ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn adlewyrchu lefel galonogol o frwdfrydedd a chefnogaeth i'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion, ac ymrwymiad eang at athroniaeth y diwygiadau.

Mae'r astudiaethau achos sy'n manylu am brofiadau gwahanol ysgolion wrth ddiwygio'r cwricwlwm yn enghreifftiau craff o arferion sy'n dod i'r amlwg, y byddem yn annog ysgolion i'w darllen a'u hystyried wrth ddechrau cynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain.

Mae'n amlwg bod ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol ar eu taith i ddiwygio'r cwricwlwm, ond rydym yn cydnabod bod mwy fyth i'w wneud i roi sylw i'r rhwystrau sy'n cael eu hamlygu yn yr adroddiad hwn.

Ers cynnal y gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, rhyddhawyd nifer o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaethau-achos-chameos-oddi-wrth-ysgolion-uwchradd** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

adnoddau ychwanegol i ysgolion i'w helpu wrth ddiwygio'r cwricwlwm. Mae ***Canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru***, ac yn arbennig yr adran ***Cynllunio eich Cwricwlwm***, yn fan cychwyn. Rydym yn annog ysgolion i edrych yn fanwl ar y canllawiau hyn wrth baratoi i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.

Mae ***Cwricwlwm i Gymru – y daith i 2022*** yn amlinellu'r disgwyliadau cyffredin i ysgolion wrth gynllunio eu cwricwlwm a pharatoi i'w roi ar waith. Mae hefyd yn ceisio helpu ysgolion i gynllunio eu dulliau gweithredu a rhoi trefn ar eu gweithgarwch drwy ddarparu camau clir o weithgarwch rhwng nawr a mis Medi 2022.

Mae sianel **YouTube Addysg Cymru** hefyd yn cynnwys cyfres o fideos defnyddiol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, gan gynnwys **cyfres am y gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad**. Gall ymarferwyr gadw llygad ar y datblygiadau diweddaraf gyda'r cwricwlwm newydd a bod yn rhan o'r sgwrs ar dudalen **Blog y Cwricwlwm i Gymru**.

Rhagor o gymorth i ysgolion

Yn ogystal â'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ar **Hwb**, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid strategol i helpu ysgolion i wireddu'r cwricwlwm a rhoi sylw i'r rhwystrau sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn. Bydd hyn yn cynnwys:

i. Cynllun Gweithredu'r Cwricwlwm: Bydd hwn yn amlinellu:

- ein disgwyliadau ar gyfer gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru a sut y bydd ysgolion, partneriaid strategol a Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn
- sut y byddwn ni fel system yn datblygu cymorth i ysgolion drwy weithio ar y cyd gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid mewn rhwydwaith cenedlaethol
- sut y byddwn yn sicrhau bod y system yn creu gofod ac yn darparu cymorth i alluogi ysgolion i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru
- sut y byddwn yn defnyddio dysgu ac adborth ar draws y system i ddeall sut mae'r diwygiadau yn gweithio.

ii. Rhwydwaith cenedlaethol: Bydd y rhwydwaith yn helpu i weithredu ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaethau-achos-chameos-oddi-wrth-ysgolion-uwchradd** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

lefel genedlaethol – gan ddwyn ynghyd safbwyntiau ymarferwyr, arbenigwyr a rhanddeiliaid ehangach o bob cwr o Gymru i ddeall cynnydd, adnabod rhwystrau a chyfrannu at gymorth. Bydd yn fforwm i rannu dealltwriaeth ac arbenigedd, datblygu atebion ar y cyd i oresgyn rhwystrau a heriau ar lefel genedlaethol, a darparu adnoddau a deunyddiau i helpu i roi sylw i'r rhwystrau hynny.

iii. Canllawiau ychwanegol: Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi adnoddau ychwanegol yng ngwanwyn 2021 i helpu ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ychwanegol ar destunau fel Gyrfaoedd a Phrofiad Gwaith; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

iv. Rhagor o wybodaeth: Ceir rhestr lawn o'r canllawiau ychwanegol arfaethedig a'r cerrig milltir eraill yn ***Cwricwlwm i Gymru – y daith i 2022***

Manylion cyhoeddi

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar neu ar ôl 26 Tachwedd 2020 ac fe fydd ar gael ar **wefan Estyn**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaethau-achos-chameos-oddi-wrth-ysgolion-uwchradd** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos oddi wrth ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaethau-achos-chameos-oddi-wrth-ysgolion-uwchradd** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaethau-achos-chameos-oddi-wrth-ysgolion-uwchradd** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.